



## **PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 16 Hydref 2018 am 1.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber    Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd A Crimmings    Y Cyngorydd G Hopkins  
Y Cyngorydd M Norris    Y Cyngorydd J Rosser  
Y Cyngorydd R Lewis    Y Cyngorydd C Leyshon

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr S Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol  
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth -Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr D Batten, Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad  
James, Pennaeth Adfywio a Ffyniant

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd G Caple  
Y Cyngorydd J Williams

#### **48      DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Hopkins y diddordeb personol canlynol mewn perthynas ag Agendwm 7 ac arhosodd yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod ac wrth i'r aelodau bleidleisio arni - 'Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Llanharan'.

#### **49      Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar

20 Medi, 2018 yn rhai cywir.

## 50 CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR - BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ei adroddiad i Aelodau sy'n egluro'r sefyllfa o ran adnoddau untro mae modd manteisio arnyn nhw. Mae hyn yn sgil adolygu cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi y Cyngor ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2017/18, gan gynnwys gofynion cyllido Yswiriant.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu'n gyson fel rhan o drefniadau rheoli ariannol cadarn y Cyngor a chyfeiriodd yr Aelodau at adran 4.3 o atodiad yr adroddiad a oedd yn amlinellu i ba raddau y mae modd rhyddhau unrhyw symiau. Soniwyd yn Adran 5.4 o atodiad yr adroddiad hefyd am feysydd posibl ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol (fel sy wedi'u hamlinellu isod), gyda buddsoddiad o £23.450 miliwn y mae modd ei ariannu'n llawn trwy gyfuniad o ryddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn ogystal â benthycu darbodus wedi'i ariannu gan gostau llai yn deillio o hawliadau yswiriant:

- Gofal Ychwanegol (£2.000M)
- Rhaglen Gwneud Defnydd Gwell (MBU)/Cynllun Rheoli Traffig (£0.300M)
- Parciau a Mannau Gwyrdd (£0.200M)
- Buddsoddiad Adfywio Strategol (£1 miliwn)
- Deuli ffordd yr A4119 (£1.500M)
- Ffordd Osgoi Llanharan (£0.500M)
- Canolfannau Cymuned (£0.250M)
- Ffordd Gyswilt Treorci (£0.200M)
- Ffordd Osgoi Aberdâr (£1.000M)
- Tresalem a Choed-elái (arian cyfatebol – £4.200Miliwn)
- Buddsoddiad mewn Priffyrdd hyd at 2021 (£12.000 miliwn)
- Parc Eco Bryn Pica (£0.200M)
- Cronfa Alluogi Cymunedol (£0.100M)

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r cyfle i fuddsoddi ar draws yr ardaloedd sy wedi'u hamlinellu, a oedd wedi'u nodi eisoes yn y Cynllun Corfforaethol a'r addewid cyhoeddus ym Manifesto'r Blaid Lafur. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y llifogydd diweddar ar draws rhannau o'r Fwrdeistref Sirol a gofynnodd fod cyllid pellach ar gael i'r gronfa seilwaith wrth gefn i helpu i liniaru pwysau ac i fwrw ymlaen gyda buddsoddi yn y maes yma.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd hefyd yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor fuddsoddi tra ei fod yn dal i wynebu mesurau llym, gan ddweud bod modd priodoli hyn i reolaeth ariannol gadarn y Cyngor.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Cynnig rhyddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, ymgymryd â benthycu darbodus a Blaenoriaethau Buddsoddi yn deillio o hyn, yn unol â'r manylion yn Atodiad A i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2018, yn

amodol ar gynnwys £100,000 ychwanegol i'r gronfa Seilwaith wrth gefn.

2. Derbyn adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf tua dechrau 2019 ynglŷn â Chronfeydd wedi'u Clustnodi sydd ar gael yn rhan o'r gwaith arferol ar strategaeth y gyllideb sy'n cael ei wneud ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

## **51 Y DIWEDDARAF YNGLŷN Â BUDDSODDI - HAMDDEN, PARCIAU, MANNAU CHWARAE, TREFTADAETH AC ATYNIADAU I YMWELWYR**

Cyflwynodd Pennaeth Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad ei adroddiad manwl i'r Aelodau a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau am gynnydd y rhaglen fuddsoddi mewn Canolfannau Hamdden, Caeau 3G, Meysydd Chwarae, Parciau a Threftadaeth ac Atyniadau i Ymwelwyr, gan dynnu sylw at y gwelliannau yng nghyflawniad y gwasanaeth o ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddi.

Rhoddodd y swyddog fanylion cadarnhaol i'r Aelodau mewn cysylltiad â'r buddsoddiad a deilliannau a buddion buddsoddiad o'r math yma ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y buddsoddiad wedi cael effaith amlwg ar y Gwasanaeth Hamdden, gyda'r gwasanaeth eisoes yn rhagori ar dargedau ar gyfer aelodaeth a chadw aelodau sy wedi'u nodi yn y Strategaeth Hamdden ar gyfer 2020. Parhaodd y Swyddog trwy ddweud bod gwelliant amlwg hefyd yng nghyflawniad Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, lle mae buddsoddi wedi atal dirywiad hirdymor y cyfleuster, ac erbyn hyn mae'r garfan reoli wedi cyflwyno cynnig sydd wedi'i groesawu'n frwd gan gwsmeriaid presennol a newydd. Ychwanegodd y dylai'r cynlluniau yn y dyfodol alluogi "Taith Pyllau Glo Cymru" i fod yn gyrchfan blaenllaw i dwristiaid yn Ne Cymru.

Nododd hefyd lwyddiant a phoblogrwydd y buddsoddiad yng nghaeau chwaraeon 3G yn ogystal â buddsoddiad y Cyngor i gyfleusterau Hamdden a Chwarae ac atyniadau i ymwelwyr.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a'r Gwasanaethau Threftadaeth i'r gwasanaeth am yr adroddiad cadarnhaol gerbron yr Aelodau a siaradodd am ganlyniadau a manteision cadarnhaol y buddsoddiad sy wedi'i wneud yn y gwasanaeth ar gyfer pobl o bob cenhedlaeth yn y Fwrdeistref Sirol mewn perthynas â deilliannau iechyd, iechyd a lles yn ogystal â chryfhau cymunedau.

Nododd yr Arweinydd yr addasiadau sy wedi'u gwneud i wasanaethau er mwyn gweddu anghenion trigolion yn well a chyfeiriodd at y cynnydd mewn aelodaeth o Ganolfannau Hamdden a'r canlyniadau cadarnhaol sydd i'w gweld o safbwynt nodau iechyd, lleihau diabetes, gordewdra a mynediad i ardaloedd chwarae ar gyfer cenedlaethau iau.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd sylwadau hefyd ar gryfhau cydlynid cymunedol trwy'r gwasanaeth a chyflwynodd sylwadau ar y galw cyfredol am Bêl-rwyd ac ymagwedd flaengar yr awdurdod.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd sy wedi'i wneud gyda'r rhaglen fuddsoddi mewn Hamdden, Chwaraeon, Parciau, Chwarae ac Atyniadau i Ymwelwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol,
2. Nodi'r gwelliannau sylweddol o ran darparu gwasanaethau sy'n ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen fuddsoddi,
3. Ystyried blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth pan fydd cyfleoedd ariannu yn codi.

## **52 Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL – STRATEGAETH BUDDSODDI MEWN ASED AU'R PRIFFYRDD**

Cafodd adroddiad ei roi i'r Aelodau gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy wedi'i wneud drwy'r Cynllun Buddsoddi Priffyrdd parhaus. Defnyddiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth y cyfle hefyd i gyflwyno opsiynau wedi'u costio ar gyfer strategaethau cynnal a chadw cerbydau a llwybrau troed yn y dyfodol, fel sy wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth fod buddsoddi ar draws ased priffyrdd y Cyngor ers 2011/12 wedi gwella cyflwr yr ased, lleihau costau yswiriant a'r achosion o hawliadau ar gyfer llithro, baglu a chwmpo ar y briffordd ac mae manteision cysylltiedig o safbwynt lles, pwysau ar wasanaethau gofal iechyd a chynhyrchedd.

Trwy ei adroddiad, clywodd yr Aelodau am effaith ystod o senarios cyllido, gan gynnwys manteision posibl ymrwymo i raglen fuddsoddi wedi'i chyflymu, gyda rhaglen o'r math yma yn gwella cyflwr yr ased, a hefyd yn lleihau'r lefel o gyllid sydd ei hangen i gynnal yr ased wedi hynny. Esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth y byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y tyllau yn y ffordd y mae angen eu llenwi a chyfle i ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau cynnal a chadw mwy rhagweithiol.

Siaradodd yr Arweinydd am bwysigrwydd buddsoddi a chynnal a chadw ased mwyaf gwerthfawr y Cyngor, a siaradodd am yr opsiwn buddsoddi cyflym a oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

### **PENDERFYNWYD:**

1. odi'r cynnydd sy wedi'i wneud hyd yn hyn, yn benodol y gwelliannau yng nghyflwr y rhwydwaith ffordd gerbydau, y nifer llai o hawliadau trydydd parti sy wedi'u gwneud yn erbyn y Cyngor a'r gostyngiad yn y nifer o ddiffygion ar y rhwydwaith ffordd gerbydau a llwybrau troed sy'n codi.
2. odi'r gofynion cyllido rhagamcanol ar gyfer yr amrywiol opsiynau ac i fwrw ymlaen ag opsiwn 2 fel sy wedi'i amlinellu yn atodiad yr adroddiad, sef yr opsiwn i gynnal rhaglen gyllido wedi'i chyflymu ar gyfer 3 blynedd.

(**DS** Gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Bevan yr ystafell gyfarfod pan drafodwyd yr adroddiad ac felly ymatalodd e rhag pleidleisio ar yr eitem.)

## Y DIWEDDARAF AR BROSIECTAU SEILWAITH TRAFNIDIAETH MAWR

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth yr Aelodau at yr adroddiad ger eu bron, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol nifer o brosiectau seilwaith trafndiaeth strategol allweddol, gan gynnwys Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm Aberpennar tua'r De, Ffordd Osgoi Llanharan, Deuoli A4119 Heol Dyffryn Elái (Stinkpot Hill), Cynlluniau Parcio a Theithio, Mynedfa Cwm Cynon tua'r Gogledd (Estyniad i A4059 Ffordd Osgoi Aberdâr) a Ffordd Liniaru y Gelli / Treorci.

Siaradodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth yn fanwl am bob un o'r prosiectau sy wedi'u cyflwyno cyn ymateb i sylwadau'r Aelodau.

Gwnaeth yr Arweinydd sylw ar y prosiectau a dywedodd fod Cynllun Strategol y Cyngor yn cyfeirio atyn nhw a rhoddodd sylwadau cadarnhaol ar y cyfleoedd y byddai prosiectau o'r math yma yn eu darparu ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd fod buddsoddi mewn seilwaith priffyrdd yn amhrisiadwy i'r Fwrdeistref Sirol ac yn caniatáu datblygu cynlluniau mawr a bach, a phob un yn cael effaith sylweddol ar seilwaith trafndiaeth yr Awdurdod.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd sy wedi'i wneud hyd yn hyn ar Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm tua'r De, Ffordd Osgoi Llanharan, Deuoli'r A4119 (Stinkpot Hill) a chynlluniau Parcio a Theithio cyfredol y Cyngor.
2. Nodi cynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â deuoli'r A465 a'r effaith ar Ffordd Gyswllt Mynediad Cwm Cynon tua'r Gogledd.
3. Ystyried materion Ffordd Liniaru y Gelli / Treorci a'r cynigion amgen ar gyfer Ffordd Gyswllt Treorci, fel sy wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.
4. Trafod ariannu gwaith ac astudiaethau pellach i ddatblygu'r prosiectau seilwaith trafndiaeth strategol allweddol.

## ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Er mwyn galluogi'r Cyngor i barhau i weithredu Ardoll Seilwaith Cymunedol yn unol â'r rheoliadau statudol, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cynllunio ei adroddiad i'r Aelodau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol yn manylu ar incwm a gwariant ASC, ac amlinellodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth fanylion incwm a gwariant ASC ar gyfer 2017/18.

Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod cynnwys yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad yn ystod eu cyfarfod ym mis Medi.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai sylwadau ar yr adroddiad a thrafododd rwymedigaethau'r Cyngor i gynhyrchu rhestr 123 a dywedodd y byddai o fudd pe bai'r Cynghorau Cymuned lleol hefyd yn gweithredu â rhestr debyg, er bod hyn ddim yn orfodol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai at dderbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol cymharol isel yn ystod blynyddoedd cyntaf ei gweithredu oherwydd

bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau sy'n digwydd yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn i'r ASC ddod i rym.

Gwnaeth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Hopkins hefyd sylw ar arfer da y Cynghorau Cymuned sy'n cynhyrchu Rhestr 123, a siaradodd am yr arfer sy wedi'i ddwyn ymlaen yng Nghyngor Cymuned Llanharan yr oedd yn fodlon ei rannu.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth yr Aelodau y byddai pwnc Rhestr 123 ASC gan Gyngorau Cymuned yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer trafodaethau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgysylltu â'r Gymuned.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Nodi cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC), fel sy wedi'i amlinellu yn Atodiad A y ddogfen.

(**DS.** Datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Hopkins fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem yma y mae cofnod rhif 48 yn cyfeirio ato)

## 55 **Strategaeth Canol Tref y Porth**

Cyflwynodd Pennaeth Adfywio, Tai a Ffyniant strategaeth ddrafft adfywio i'r Aelodau ar gyfer Canol Tref y Porth, a oedd yn edrych ar weddnewid yr ardal yn dref a fyddai'n cyflawni twf economaidd a chreu swyddi. Cyfeiriodd y Swyddog at ymrwymadau Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r angen i fynd i'r afael â'r heriau niferus y mae canol trefi yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn y Fwrdeistref Sirol, gan ychwanegu bod yr ateb yn gofyn am ymagwedd integredig, gydlynol a chyfannol at adfywio canol trefi sy'n manteisio ar sawl cyfle cyffrous sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd trwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad a roddodd gwybodaeth fanwl am y strategaeth ddrafft er mwyn i aelodau ei hystyried, gan gynnwys y cynlluniau allweddol y byddai angen eu gweithredu i wneud i'r strategaeth weithio. Cafodd yr aelodau wybod mai'r cam nesaf hanfodol oedd wedi'i amlygu yn y broses weithredu oedd yr angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai y strategaeth, a oedd yn edrych i adeiladu a chynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn cynnwys llawer o fanteision ehangach nid yn unig i drigolion y Porth ond i drigolion y Fwrdeistref Sirol hefyd.

Siaradodd Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G Caple a J Williams am yr eitem hefyd.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar y strategaeth a soniodd am y manteision y byddai'r Metro hefyd yn eu cyflwyno i'r strategaeth a'r canlyniadau cadarnhaol i ardaloedd eraill y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD**:

1. Cychwyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft, ar ôl

ystyried Strategaeth Ddrafft Adfywio Canol Tref y Porth fel sy wedi'i amlinellu yn Atodiad A, a derbyn adroddiad pellach yn manylu ar ganlyniadau'r cyfnod ymgynghori.

2. Datblygu cynlluniau a phrosiectau pellach fel sy wedi'u hamlinellu yn y strategaeth ddrafft, yn amodol ar adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## **56 DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION (POLISI LLEOL) 2019-2021**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned ei adroddiad i Aelodau, sy'n ystyried Datganiad o Egwyddorion diwygiedig, o dan ddarpariaethau Deddf Gamblo 2005 (h.y. y datganiad polisi lleol ar gyfer rheoli gweithgareddau gamblo o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf), ar gyfer 2019-2021 yn unol â gofynion statudol.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr ynglŷn â'r gofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd ac felly roedd y datganiad cyfredol yn destun adolygiad. Ychwanegodd fod y Datganiad o Egwyddorion arfaethedig i ddod i rym o 31 Ionawr 2019, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn.

Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol sylwadau ar yr Egwyddorion a gynorthwyodd yr Awdurdod i sicrhau ei fod wedi'i reoleiddio'n dda ac a oedd yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch trigolion yn yr ardal yma.

### **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r polisi fel yr argymhellodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cynhoedd a Gwasanaethau Cymuned, ac a oedd wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu ar 11 Medi 2018.
2. Cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig i'r Cyngor i'w fabwysiadu yn unol â gofynion statudol.

## **57 DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 – DEFNYDD O'R DDEDDF YN 2017–18 GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF A PHOLISI GORFODI CORFFORAETHOL Y CYNGOR**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yr wybodaeth ddiweddaraf flynyddol i'r Aelodau am ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018, a chadarnhau iddi gael ei defnyddio mewn modd cyson a phriodol yn unol â pholisi'r Cyngor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd yr Aelodau at yr adolygiad a gafodd ei wneud gyda Pholisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor a'i bolisi ar y defnydd o RIPA.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr wybodaeth ddiweddaraf a'r ffaith bod y staff yn gweithio yn unol â'r polisiau sydd ar waith

i'w diogelu eu hunain ac i ddiogelu'r Cyngor. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd i'r Aelodau gael y polisi diwygiedig yn llawn yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Cydnabod bod Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 wedi ei defnyddio mewn modd priodol sy'n gyson â pholisïau'r Cyngor, yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018;
3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i (i) y Polisi Gorfodi Corfforaethol a (ii) y Polisi RIPA Corfforaethol fel sydd i'w gweld yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad yn y drefn honno; a
4. Nodi barn y Prif Swyddog Cyfrifol ar hyn o bryd bod Caffael Data Cyfathrebu ar hyn o bryd o dan Bolisi RIPA yn parhau i fod yn addas i bwrpas.

**58 Bwrdd Rhianta Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2017/18 i'r Aelodau, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

A hithau'n Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc sylw ar yr adroddiad a gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn (dan gadeiryddiaeth y Cyng. G Hopkins bryd hynny), gan roi sylwadau ar y dyheadau o fewn y cynllun a'r berthynas waith gadarnhaol gyda'r Pwyllgor Craffu.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg sylwadau ar y ddyletswydd sydd ar bob Cynghorydd i ddiogelu'r plant hynny sydd yng ngofal yr Awdurdod a'r angen a'r dyhead i sicrhau bod y plant yma yn dal i gyflawni eu potensial llawn ac yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall. Diolchodd yr Aelod Cabinet a Chadeirydd blaenorol y Bwrdd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu hymrwymiad a'u gwaith dros Flwyddyn Gyngor 2017/18 a soniodd am waith sydd wedi'i wneud, gan gynnwys y cyfle i ddathlu llwyddiannau'r plant o fewn y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Blant ddiolch i'r Aelodau am gyfle i gyflwyno adroddiad ei Bwyllgor, oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith da yn ystod y flwyddyn 2016/17.

1. Nodi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) yn dilyn sylwadau.

**59 Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2019/20 - Y Setliad Dros Dro**



Gyda chaniatâd yr Arweinydd, ac yntau o'r farn bod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen – 'Cyllideb Refeniw 2019-20 y Cyngor - Y Setliad Dros Dro 'i gael ei drafod yn unol â darpariaeth adran 100(b)4(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn fater o frys, yng ngoleuni amgylchiadau arbennig hynny yw – Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â'r setliad dros dro yn dilyn ei gyhoeddi ar 9 Hydref, 2018.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2019-2020, a sylwadau cychwynnol ar ei oblygiadau tebygol ar gyfer cynnal gwasanaethau'r Cyngor, yn dilyn cyhoeddi'r manylion ar 9 Hydref, 2018.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr y prif benawdau ynghylch y data yn ymwneud â'r setliad, gan nodi bod y setliad dros dro yn dangos cynnydd +0.3% i Rondda Cynon Taf, sy'n uwchlaw'r cyfartaledd, sef -0.3%. Mae ffigyrau setliad ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn amrywio o +0.4% ar ei orau i -1.0% ar ei waethaf. Cafodd Aelodau wybod bod y setliad yn cynnwys rhan o'r cyllid ar gyfer cynnydd cyflog athrawon a'r cynnydd mewn Prydau Ysgol am Ddim, ond dyw manylion ynglŷn â grantiau ddim wedi'u cadarnhau eto.

Cafodd Aelodau wybod bod y setliad dros dro yn well na'r hyn a gafodd ei gynllunio yn y Cynllun Ariannol Tymor Hir mwyaf diweddar, ond byddai'n parhau i roi her yn nhermau paratoi cyllideb fantoledig ar gyfer 2019/20, gydag Aelodau yn cael eu hysbysu y byddai bwlch posibl o £5.920M yn y gyllideb. Manteisiodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i roi gwybod i'r Aelodau am y gwaith sydd ei angen i baratoi strategaeth ar gyfer pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2019/20.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr wybodaeth yn dilyn y cyhoeddiad, gan ddweud bod risg fawr yn dal i wynebu'r Awdurdod mewn perthynas â'r cynnydd yng nghyflog athrawon, sydd heb ei ariannu'n llawn, gan gadarnhau bod gohebiaeth wedi'i hanfon at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan ynglŷn â'r mater. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at fformiwla ganlyniadol Barnett o du Llywodraeth San Steffan a allai effeithio ar y setliad i Gymru yn y dyfodol. Soniodd an y pwysau mewn perthynas â maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y trethi mewn perthynas â phrentisiaethau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, gan fwrw sylw y byddai angen cynnal ymgynghoriad ar gau'r bwlch.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd hefyd am y setliad dros dro a bod y Cyngor wedi cyrraedd y rhestr fer am wobwr genedlaethol glodfawr ar gyfer cynllun Prentisiaethau'r Cyngor.

#### **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2019/2020, wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 9 Hydref 2018.
2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod mis Rhagfyr 2018.
3. Nodi bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth gyllideb gyffredinol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yn dechrau ar 5 Tachwedd

2018.

4. Cyfeirio'r adroddiad at sylw cyfarfod y Cyngor ar 24 Hydref, 2018 ar gyfer ystyriaeth y Cyngorwyr i gyd.

## 60 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad: Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd, sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno). Mae tryloywder o ran cynnal busnes awdurdod lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd gwybodaeth ariannol bersonol yn cael ei thrafod a'i hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth weithredu'r eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

## 61 PROSESU DEUNYDDIAU AILGYLCHU CYMYSG YMYL Y Ffordd

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio yr Aelodau at ei adroddiad, sy'n cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio, gan nodi canlyniad y broses gaffael i fuddsoddi, ochr-yn-ochr â chwmni (Amgen) y mae'r Cyngor yn berchen yn llwyr arno, mewn technoleg newydd i wneud newid gwirioneddol yn effeithlonrwydd prosesu'r deunyddiau i'w hailgylchu yn ei Gyfleuster Adfer Deunyddiau.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD**:

1. cymeradwyo'r buddsoddiad yn dilyn trafod canlyniad y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad;
2. cymeradwyo'r cynigion ariannu fel sydd wedi'u nodi ym mharagraff 8.1 yn yr adroddiad, sef cyfraniadau ariannol gan y Cyngor ac Amgen.
3. awdurdodi swyddogion i ddyfarnu'r contract a rhoi'r trefniadau gweithredu priodol ar waith ar gyfer gosod.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 pm

Cllr A Morgan  
Cadeirydd.